




Polisi ac Arfer: Y Gymraeg mewn Addysg

Alex Lovell

Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe
a.e.lovell@abertawe.ac.uk



“The Welsh language is a vast drawback to Wales and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. It is not easy to over-estimate its evil effects.”

“On the subject of this disastrous barrier to all moral improvement and popular progress in Wales, and the ease with good schools would remove it, I may cite the following brief extracts from the unanimous evidence on the subject... Mr. Williams, of Lampeter, says –

“The Welsh language is a decided impediment to the mental improvement of the people...”

Reports of the Commissioners of Inquiry into the state of education in Wales, 1847, Part II, pp. 66-7

Nodau'r sesiwn:

- Datblygu ein dealltwriaeth o rôl y Gymraeg mewn polisi ac arfer yng Nghymru.
- Deall y ffactorau gwleidyddol a chymdeithasol sydd wedi gyrru datblygiadau o ran polisi addysgol.
- Dadansoddi a chymharu polisiau addysg Gymraeg diweddar.
- Ystyried goblygiadau posibl y polisiau hyn ar gyfer y sectorau addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

Deddf Diwygio Addysg 1988

- Cwricwlwm cenedlaethol i Gymru.
- Y pynciau cwricwlaidd yn cael eu gosod a'r Cyfnodau Allweddol yn cael eu sefydlu.
- Dealltwriaeth a sgiliau i gael eu mesur ar ddiwedd y 4 Cyfnod Allweddol
- Er hynny, byddai'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno a'i dysgu mewn ychydig o ysgolion ar draws Cymru yn unig, heb unrhyw ofyniadau statudol ar ysgolion i addysgu Cymraeg.

Some key developments in the 1990s

- 1990 – Daeth Cymraeg yn bwnc sylfaenol i’w addysgu yn CA1, 2 & 3 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac yn bwnc craidd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- 1993 – Deddf yr Iaith Gymraeg.
- *Developing the Curriculum Cymreig* (ACCAC, 1993, 2003).
- 1999 – Daeth y Gymraeg yn bwnc sylfaenol yn CA4.
- Am y tro cyntaf erioed byddai gan bob disgybl yng Nghymru yr hawl i ddysgu Cymraeg.

Ysgolion: cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg

Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg o ran eu darpariaeth iaith Gymraeg?

Trafodwch mewn grwpiau

Ysgolion: cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg

Ysgolion cyfrwng Cymraeg:

- Cymraeg Iaith Gyntaf (pwnc craidd)
- Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (i wahanol raddau)

Ysgolion cyfrwng Saesneg:

- Gwersi Cymraeg Ail Iaith (pwnc syflaenol) yn unig

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn llawer mwy cymhleth...

Diffinio addysg Gymraeg

Adran 105 (7) Deddf Addysg 2002:

'...a school is Welsh-speaking if more than one half of the following subjects are taught (wholly or partly) in Welsh:

- (a) religious education, and
- (b) subjects, other than English and Welsh, which are foundation subjects for pupils at school.'

Pam mae'r diffiniad uchod yn broblematig?

Disgrifio addysg Gymraeg

- Dyw'r diffiniad cyfreithiol ddim yn cymryd i ystyriaeth y gwahanol fathau o addysg ddwyieithog a geir ar draws Cymru.

“In between basically monolingual Welsh and monolingual English schools in Wales, there is the widest variety of practice of bilingual education. The kaleidoscopic variety of bilingual educational practice in Wales makes the production of a simple typology inherently dangerous.”


(Baker, 1993: 15)

Datblygiadau pellach o ran polisi

- *Dyfodol Dwyieithog: A bilingual future* (2002)
- *Iaith Pawb* (2003)
- Y cynllun gweithredu cenedlaethol cyntaf ar gyfer creu Cymru ddwyieithog.

“Mae Cymru wirioneddol ddwyieithog yn golygu Cymru lle gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng naill iaith neu'r llall neu trwy Gymraeg a Saesneg, ill dwy...”

(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003: 1)



- Byddai ffyniant y Gymraeg a dwyieithrwydd yn ganolbwynt i bolisi iaith yng Nghymru.
- Byddai rôl addysg, yn enwedig addysg cyfrwng Cymraeg, yn cael ei gwerthfawrogi yn y broses o wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol hon:

“Mae addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ehangu'n gyson a dymuna Llywodraeth y Cynulliad annog y duedd hon. Cydnabyddir rôl hollbwysig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a dulliau trochi ieithyddol yn y broses o ddatblygu sgiliau dwyieithog cadarn ymhlith disgyblion.”

(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003: 40)

laith fyw: iaith byw

Strategaeth y Gymraeg 2012-17



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

- *laith fyw: iaith byw* – *Strategaeth y Gymraeg 2012-17*
- 2 elfen graidd – caffael y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg

Nod hirdymor Llywodraeth Cymru Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru

Caffael yr iaith

**Strategaeth Addysg
Cyfrwng Cymraeg
(2010)**

Maes strategol 1:
Y teulu

Defnyddio'r iaith

Maes strategol 2: **Plant a phobl
ifanc**

Maes strategol 3:
Y gymuned

Maes strategol 4: **Y gweithle**

Maes strategol 5:
**Gwasanaethau
Cymraeg**

Maes strategol 6:
Y seilwaith

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg



Gwybodaeth

Dogfen gwybodaeth rhif: 083/2010
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2010

- *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)*

“Rydym am sicrhau bod y system addysg yn ei gwneud yn bosibl i fwy o ddysgwyr o bob oedran feithrin amrywiaeth ehangach o sgiliau iaith yn y Gymraeg. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau personol, yn gymdeithasol ac yn y gweithle.”
(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 4)

- Ffocws penodol ar addysg cyfrwng Cymraeg.
- Heb fawr o sôn am addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.



- *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*
- Strategaeth iaith newydd a gafodd ei lansio yn 2017
- *Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun gweithredu 2017-21*
- Cafodd ei lansio i gyd-fynd â'r strategaeth newydd





Darllenwch tt. 2-12 Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac yna
tt. 6-15 Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21.

Sut y mae'r ddau bolisi yn cymharu o ran eu **gweledigaeth** a'u
egwyddorion? Beth sydd yn debyg / wahanol rhwng y ddau bolisi?



- *Cymraeg 2050*
- Ffocws o'r newydd ar Gymraeg Ail Iaith a rôl ysgolion cyfrwng Saesneg o ran gwireddu nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru:

“Mae cyfraniad pwysig i'w wneud gan y sector cyfrwng Saesneg i'n nod o ddatblygu siaradwyr Cymraeg. Er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr, mae angen i ni weddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i ddysgwyr yr ysgolion hynny, er mwyn i o leiaf hanner y dysgwyr hynny allu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.”

(Llyworaeth Cymru, 2017a: 38)

- Shifft tuag at integreiddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ymhob ysgol.

Y Continwwm iaith

- Continwwm iaith (Baker & Jones, 2000: 135):

“New strategies are needed, for example establishing a continuum from early language learning to full fluency, and to move from the current separation of Welsh first- and second-language lessons and Welsh-medium content teaching to establish a concurrent use of both languages in teaching and learning contexts; evolving a bilingual approach in classrooms rather than language separation.”
- I ba raddau y mae'r cysyniad (*concept*) o gontinwwm iaith yn ddefnyddiol o safbwynt mesur ac asesu sgiliau iaith dysgwyr Cymraeg o fewn ac ar draws y sectorau cyfrwng Saesneg a Chymraeg? **Trafodwch**

Y Continwwm Cymraeg

- **Ar lefel yr unigolyn**, gellid ystyried y ‘continwwm Cymraeg’ fel proses gydol oes dysgu Cymraeg.
- Posibl symud yn ôl ac ymlaen ar hyd y continwwm
- Yn naill ben y continwwm y mae dysgwyr pur ac yn llall ben y continwwm y mae siaradwyr rhugl iawn.
- Dim cyfyngiadau penodol ar y broses o ddysgu iaith

Siaradwr uniaith
Saesneg



Siaradwr dwyieithog
/ amlieithog

Y Continwwm Cymraeg

- **Yn y cyd-destun addysgol fodd bynnag**, mae'n debyg y bydd y continwwm Cymraeg yn cynrychioli fframwaith y gellir seilio trefniadau dysgu, addysgu ac asesu ar gyfer Cymraeg arno.

Dysgwr Cymraeg
newydd?



Siaradwr Cymraeg
rhugl?

Trafodaeth

Mewn grwpiau, **trafodwch y cwestiynau a ganlyn:**

1. Beth yw goblygiadau posibl cyflwyno un continwwm (fframwaith) ar gyfer asesu dysgwyr Cymraeg yn y sectorau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg?
2. Gall annog ysgolion cyfrwng Saesneg i symud tuag at gyflwyno darpariaeth ddwyieithog / cyfrwng Cymraeg maes o law yn dod ar draul y sector cyfrwng Cymraeg. **Trafodwch.**

Heriau i'r sector cyfrwng Saesneg

Hyfforddi athrawon:

- Prinder athrawon sydd â'r sgiliau / hyder i allu cyflwyno gwersi Cymraeg yn effeithiol, yn enwedig yn y sector cynradd (Estyn, 2004, 2013; Roberts, 2010)
- Diffyg athrawon uwchradd sydd â'r sgiliau / profiad o addysgu pynciau'n ddwyieithog.
- Angen blaenoriaethu hyfforddiant cychwynnol (ITE) a hyfforddiant mewn swydd (INSET) i ddatblygu methodolegau addysgu dwyieithog athrawon.

Heriau i'r sector cyfrwng Saesneg

Y Continwmm Cymraeg:

- Beth fydd y disgwyliadau o ran deilliannau dysgu ar gyfer dysgwyr Cymraeg?
- Sut fydd perfformiad mewn Cymraeg yn cael ei gymharu ar draws y sectorau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, os o gwbl?
- ‘Cymhwysedd rhyngweithredol’ (*Transactional Competence*) (Donaldson, 2015): “...focus on speaking and listening and application [of Welsh language skills] in the workplace.” ?

Heriau i'r sector cyfrwng Saesneg

Ethos dwyieithog:

- Diffyg statws i'r Gymraeg fel iaith bob dydd ymhob ysgol
- Angen normaleiddio defnyddio'r Gymraeg a hyrwyddo ethos dwyieithog, yn ffurfiol ac yn anfurffiol, ymhob ysgol

Heriau i'r sector cyfrwng Saesneg

Trefniadau pontio:

- Angen cryfhau'r trefniadau pontio rhwng yr ysgol gynrad a'r ysgol uwchradd i sicrhau dilyniant ieithyddol gwell.
- Yn aml iawn, mae disgyblion yn colli diddordeb yn ystod y cyfnod pontio hwn (Davies, 2013)

Heriau i'r sector cyfrwng Cymraeg

Dilyniant:

- Rhaid cryfhau'r trefniadau pontio rhwng ysgolion cynradd Cymraeg ac ysgolion uwchradd Cymraeg i leihau nifer y disgyblion sydd yn trosglwyddo i addysg Saesneg.

“Nid yw mwyafrif yr unigolion hyn yn cael digon o gyfle i adeiladu ar eu sgiliau Cymraeg a'u datblygu ymhellach.”
(Davies, 2013: 28)

Heriau i'r sector cyfrwng Cymraeg

- Rhaid sicrhau bod gan bob dysgwr gyfle i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg, hyd yn oed pan fydd yn trosglwyddo o un cyfrwng dysgu i'r llall (Davies, 2013: 28).
- Ddylai cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ddod ar draul datblygu gwell ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg?
- Sut y gall y ddau sector gefnogi ei gilydd? A ydy'r cysyniad o gontinwwm yn ddefnyddiol yma?

Heriau i'r sector cyfrwng Cymraeg

- Rhaid cydnabod mor gymhleth yw addysg ddwyieithog yng Nghymru a'r angen am ddatblygiadau ar y cyd ar draws y sector addysg cyfan.

“In between basically monolingual Welsh and monolingual English schools in Wales, there is the widest variety of practice of bilingual education. The kaleidoscopic variety of bilingual educational practice in Wales makes the production of a simple typology inherently dangerous.”

(Baker, 1993: 15)

Darllen pellach

Baker, C. (1993). Bilingual education in Wales. Yn H. Baetens-Beardsmore (Gol.), European models of bilingual education (tt. 7-29). Clevedon: Multilingual Matters.

Davies, S. (2013). Un iaith i bawb. Cyrchwyd 30 Mawrth, 2020, o:
<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-cy.pdf>.

Donaldson, G. (2015). Dyfodol llwyddiannus. Cyrchwyd 30 Mawrth, 2020, o:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>

Estyn. (2018). Adroddiad blynyddol 2016-2017. Cyrchwyd 30 Mawrth, 2020, o:
https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Estyn_Annual%20Report_2018_English_Accessible.pdf

Fitzpatrick, T., Morris, S., Clark, T., Mitchell, R., Needs, J., Tanguay, E. & Tovey, B. (2018). Rapid Evidence Assessment: Effective Second Language Teaching Approaches and Methods. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd 30 Mawrth, 2020, o: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180607-effective-second-language-teaching-approaches-methods-en.pdf>

Darllen pellach

- Lewis, W.G. (2011). Addysg Ddwyeithog yn yr unfed ganrif ar hugain: Adolygu'r cyd-destun rhyngwladol. Gwerddon, Rhif 7, (pp. 66-88). Cyrchwyd 30 Mawrth, 2020, o: [http://www.gwerddon.org/en/media/main/gwerddon/rhifynnau/Gwerddon_07-\(terfynol\).pdf](http://www.gwerddon.org/en/media/main/gwerddon/rhifynnau/Gwerddon_07-(terfynol).pdf)
- Selleck, C. L. R. (2013). Inclusive policy and exclusionary practice in secondary education in Wales. International Journal of Bilingual Education and Bilingualism, 16(1), 20-41. doi: 10.1080/13670050.2012.676622
- Tavakoli, P. and Jones, R. (2018). An overview of approaches to second language acquisition and instructional practices. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd 30 Mawrth, 2020, o: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180228-overview-approaches-second-language-acquisition-instructional-practices-summary-en.pdf>
- Llywodraeth Cymru. (2017a). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Cyrchwyd 30 Mawrth, 2020, o: <https://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-Id11108/gen-Id11108-w.pdf>
- Llywodraeth Cymru. (2017b). Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun gweithredu 2017-21. Cyrchwyd 30 Mawrth, 2020, o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/y-gymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017%E2%80%9321.pdf>